Archwilio Cymru
Audit Wales

**Cyfeirnod:** IR843

**Dyddiad cyhoeddi:** 22 Medi 2022

# Arian a roddwyd i Stonewall

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 21 Medi 2022 yn gofyn am wybodaeth ynghylch arian a roddwyd gan Archwilio Cymru i Stonewall.

I'w gwneud yn haws cyfeirio atynt, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod mewn inc trwm ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

- **Beth oedd y ffi aelodaeth a roddwyd i Stonewall fel rhan o'u rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn 2021-22 gan eich sefydliad?**

Fe wnaethom gofrestru i ddod yn aelod o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall Cymru am y tro cyntaf yn 2017 ac rydym wedi adnewyddu hyn yn flynyddol tan 2020, i barhau â'n statws Hyrwyddwr Amrywiaeth.

Rwyf wedi cysylltu â'n hadran Adnoddau Dynol a wnaeth gadarnhau bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dirwyn ei haelodaeth o gynlluniau Stonewall i ben ac felly ni roddwyd ffi aelodaeth i Stonewall yn ystod 2021-22.

- **A yw eich sefydliad yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall ar hyn o bryd?**

Gweler uchod – nid yw ein sefydliad yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall ar hyn o bryd.

- **Pa arian ychwanegol roddwyd i Stonewall yn 2021-22? Yn benodol, mae hyn yn ymgorffori:**
    - **Digwyddiadau/cynadleddau (lle mae eich sefydliad, er enghraifft, wedi prynu tocynnau i fod yn bresennol neu wedi cymryd rhan mewn rafflau neu ocsiynau a drefnwyd gan Stonewall). Enwch unrhyw ddigwyddiadau/cynadleddau y bu eich sefydliad ynddynt a'r dyddiad y buoch ynddynt.**
    - **Rhaglenni eraill (megis y rhaglen Arweinwyr LHDT, y rhaglen Model Rôl LHDT, rhaglenni Cynghreiriaid a/neu Gynghreiriaid Traws, yn ogystal â rhaglenni Hyfforddi'r Hyfforddwr).**

Ni roddwyd unrhyw arian i Stonewall yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â’ch cais, cysylltwch â mi’n ddiymdroi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth